Postiwyd ar Hydref 29 2011

# DYDY CAETHWASIAETH DDIM WEDI MARW!

Rydw i weithiau'n meddwl bod rhai ahonoch chi'n eiddigeddus ohono i – fy ngweld yn crwydro'r byd yn fy henaint! Ond dydy o ddim yn fêl i gyd, cofiwch, pan fyddwch yn mynnu gweld beth sydd y tu ôl i'r llenni mewn rhai gwledydd. Ac ar ôl yr erchyllterau welais i yn Liberia, aros adref fydd fy hanes o hyn ymlaen.

Roeddwn wedi clywed bod amodau gwaith cwmni teiars *Firestone* yn wael ond doeddwn i ddim yn disgwyl iddynt fod cynddrwg.

Trefnwyd i mi gael treulio amser gydag Emmanuel, un o'r 'tappers' sy'n 30 oed. Mae'n codi ar doriad y wawr i ddechrau tapio latecs o 800 o goed rwber y dydd. Mae ei ddillad yn garpiog a phothelli coch ar ei ysgwyddau wedi iddo gario bwcedi sy'n dal 70 pwys o latecs ar bolyn haearn am ddwy filltir i'r ganolfan brosesu. Weithiau bydd plant yn gorfod gwneud hyn. Pryd, o pryd fydd y cwmni'n buddsoddi mewn loriau? Does ryfedd bod y gweithwyr hyn yn marw'n ifanc.

O 5 o'r gloch hyd ganol y bore bydd Emmanuel yn defnyddio picfforch i gael y latecs o'r goeden i'r cwpanau bach coch. Pe na bai yn dechrau am 5 o'r gloch y bore ni fyddai'n cyflawni ei gwota dyddiol a byddai ei gyflog yn cael ei hanneru. Mae rhai gweithwyr yn defnyddio eu plant i'w helpu i wneud y dasg anferthol hon.

Y peth cyntaf a'm trawodd pan gyrhaeddais y blanhigfa oedd y drewdod. Roedd fel wyau a chaws drwg wedi eu cymysgu. Gan nad oes ganddynt fasgiau mae'r gweithwyr yn arogli'r drewdod ddydd ar ôl dydd. Bu ond y dim i mi chwydu dros y lawnt feddal a'r cwrs golff llyfn lle mae aelodau'r tîm rheoli yn ymlacio wedi'r dasg hynod flinedig o arolygu'r gweithwyr.

Cytiau a adeiladwyd yn y 1920au ydy 'cartrefi'r' gweithwyr. Does dim toiledau, dŵr na thrydan ynddynt tra bo'r rheolwyr, ar y llaw arall, yn byw mewn tai modern moethus. Mae'r cyfleusterau addysg ac iechyd yn bell o'r gweithle ac yn brin o staff ac adnoddau.

Tra bo Prydain yn dathlu 200 mlwyddiant dileu caethwasiaeth, mae gweithwyr *Firestone* wedi eu caethiwo mewn gêm o wyddbwyll ers 1926 pan osododd llywodraeth Liberia filiwn o aceri ar lês i *Firestone* am y swm pathetig o 5 sent yr acer. Yn 2005 arwyddodd llywodraeth Liberia gytundeb i ymestyn y lês am 37 mlynedd eto. Onid cytundeb i ymestyn dioddefaint y gweithwyr ydoedd?

O gofio hyn, pa mor gyfforddus fyddwch chi'n teimlo wrth gael eich cludo'n ddiogel i'ch swyddfeydd moethus ar deiars du *Firestone* bore fory?